**Hannah Blythyn AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Deputy Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HB/05720/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@gov.wales

11 Rhagfyr 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Tachwedd ynghylch Deiseb P-05-829 a chais y Pwyllgor Deisebau am ragor o wybodaeth ynghylch hynt y cynigion i wahardd neu gyfyngu ar werthu rhai eitemau plastig untro yng Nghymru.

Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal gwaith ymchwil er mwyn asesu'r effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a fyddai ynghlwm wrth gyflwyno gwaharddiadau neu gyfyngu ar werthu 10 o eitemau y mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi'u pennu'n eitemau'n sy'n cael eu taflu fel sbwriel yn aml iawn wrth yr arfordir. Rwy'n disgwyl i'r gwaith ymchwil gael ei gwblhau erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf a bydd yr Asesiadau Effaith a fydd yn deillio ohono yn cael eu cynnwys fel rhan o broses ymgynghori gynhwysfawr. Ar ôl i'r broses ymgynghori gael ei chwblhau ac ar ôl i'r adborth gael ei ystyried yn fanwl byddwn yn cyflwyno rheoliadau gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio pwerau sydd ar gael o dan adran 140 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Er fy mod yn cydnabod bod y ddeiseb hon yn galw am gamau brys ar gyfer mynd i'r afael â llygredd plastig credaf ei bod yn bwysig ein bod ni, fel Llywodraeth, yn sicrhau nad yw unrhyw gamau rydym yn eu cymryd yn arwain at ganlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, rwy'n ymwybodol o bryderon ynghylch posibilrwydd rhai cyfyngiadau a allai arwain at effeithiau anghymesur ar bobl sydd â rhai anableddau. Byddwn felly'n sicrhau bod y cyfyngiadau newydd ar werthu plastigau untro yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno'n ofalus. Credaf hefyd fod ein cynigion yn cynnig dull deddfwriaethol mwy cydlynus na'r rhai sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn sicrhau aelodau'r Pwyllgor fy mod yn llwyr ymrwymedig i fynd i'r afael â'r mater hwn yng Nghymru a hoffwn hefyd nodi mai un rhan o gyfres o fesurau polisi a deddfwriaethol yw'r cynigion hyn. Nod yr holl fesurau hyn yw datblygu dull holistaidd o fynd i'r afael â'r broblem yng Nghymru.

Yn gywir,

**Hannah Blythyn AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government